




Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Rhaglen Arweinyddiaeth 20twenty

Astudiaeth Achos – Luke Cornish



Cyd-sylfaenydd, timto, plattform rhoddion a chodi arian ar-lein arloesol wedi'i leoli ym Mharc Navigation, Rhondda Cynon Taf, De Cymru www.timto.co.uk

Fel aelod o dîm bach yn timto, mae Luke Cornish yn credu bod ei fusnes wedi elwa'n sylweddol o ganlyniad i fodiwlau datblygiad personol Rhaglen Arweinyddiaeth 20 Twenty, yn arbennig yr hyfforddiant.

Dywed: “Roedden nhw'n amhrisiadwy, yn helpu i nodi fy nghryfderau a gwendidau i a rhai fy nhîm. Yn bwysig, helpodd y broses hon i mi ddeall sut i reoli'r ffactorau hyn o fewn cyd-destun y cwmni. “Yn hanfodol, creodd y cwrs hefyd gyfleoedd i gymryd cam yn ôl o'r gwaith ac i fyfyrio ar y busnes, a wnaeth fy ngalluogi i wneud penderfyniadau strategol gwell.”

Magodd Luke yr hyder i gyflawni datblygiadau allweddol yn timto.

Dywed: “Nododd y Rhaglen Arweinyddiaeth 20 Twenty yr angen i ystyried cynllunio olyniaeth yn fanylach, ac amlygodd brif ofynion buddsoddwyr, boed yn rhai preifat, yn gyfalafwyr menter neu'n rhai llywodraethol. “Yn sgil hynny, fe wnaethom ni ffurfio perthynas ardderchog â sefydliad gwasanaethau proffesiynol – partner cyflenwi 20Twenty – ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd ar brosiectau cyffrous.”

Mae manteision nodedig eraill yn cynnwys gwybodaeth fusnes gyffredinol ddyfnach.

Dywed Luke: “Creodd y cwrs nifer o gyfleoedd rhwydweithio o ansawdd da ag aelodau eraill y garfan, academyddion a gweithwyr proffesiynol. “Yn ogystal â darparu llwyfan i ymgynghori â phobl amlycaf y byd busnes, fe wnaeth aelodau'r garfan ychwanegu gwerth arbennig trwy rannu eu barn a chyflwyno safbwynt newydd i fy mywyd busnes. “Hefyd, roedd y daith yn hwyl. Fe wnes i gwrdd â phobl arbennig a ddaeth yn ffrindiau i mi ac rwyf i dal yn cwrdd â nhw'n rheolaidd.”